

Coeden Ddarllen Rhydychen

# Anghenfil o Jôc

Roderick Hunt Alex Brychta




DRAKE




Aeth Mam a Nain ar wyliau.

Aethon nhw i'r Alban.

Aethon nhw â'r plant.



Arhoson nhw mewn bwthyn.

Roedd y bwthyn ar lan llyn.

Roedd cwch yno.



‘Dwi’n hoffi bod yma,’ meddai Cad.

‘Cawn fynd i hwylio.’

‘Ac i bysgota,’ meddai Onw.



Cafodd pawb amser da.


Aeth Cad ac Onw i bysgota.



Roedd Nain a Dids yn paentio llun.


Eisteddodd Mam yn yr haul a darllen llyfr.

'Mae hyn yn hwyl,' meddai hi.




Edrychodd pawb ar lun Nain.
‘O Nain!’ meddai Dids.
Roedd hi wedi paentio llun anghenfil.







Edrychodd Onw ar yr anghenfil.
Chwarddodd Nain.
‘Does ’na ddim ffasiwn beth,’ meddai hi.




Aeth Mam i siopa.
Aeth ag Onw efo hi.
Arhosodd Cad a Dids efo Nain.






Edrychodd Mam ar y siopau.
'Dewch inni brynu cerdyn post i Dad,'
meddai hi.





Aeth Onw i mewn i siop.
'Dwi eisiau anghenfil i mi a cherdyn post
i Dad,' meddai.







Postiodd Onw y cerdyn i Dad.
'Hen dro na fyddai Dad yma,' meddai.



Roedd Nain eisiau pryfocio Mam.
'Dowch inni wneud anghenfil,' meddai hi.



'Dydw i ddim yn deall,' meddai Cad.
'Cei di weld!' meddai Nain.



Rhoddon nhw'r anghenfil yn y llyn.
Gwnaeth o i'r plant chwerthin.
'Mae'n edrych yn wych!' meddai Dids.



'Am jôc dda,' meddai Cad.
'Am jôc dda i bryfocio Mam.'



Daeth Mam ac Onw yn ôl.
Tynnodd Nain y rhaff.
Aeth yr anghenfil ar draws y llyn.




‘Anghenfil go iawn,’ meddai Onw.
“Rioed!’ meddai Mam.
‘Does ’na ddim ffasiwn beth.’





Gwelodd rhai pobl anghenfil Nain.
Roedden nhw wedi'u syfrdanu.
Tynnon nhw luniau.






Gwyliodd y plant y teledu.
'Anghenfil Nain!' meddai Dids.
'O na!' ochneidiodd Cad.



Y diwrnod wedyn daeth llawer o bobl.
Roedd llawer iawn iawn o bobl.

Roedden nhw eisiau gweld yr anghenfil.
‘O Nain!’ meddai Mam.
‘Edrychwch beth ych chi wedi ’i wneud.’




Soniodd Nain wrth bawb am yr anghenfil.

'Dim ond jôc oedd hi,' meddai hi.



Daeth dyn teledu yno.

Roedd Mam yn flin efo Nain ond chwarddodd pawb.



Roedd Nain yn dyfaru.
'Anghenfil?' meddai hi.
'Does 'na ddim ffasiwn beth.'



Argraffwyd yng Nghymru

# Anghenfil o Jôc

Coeden
Ddarllen
Rhydychen

Cam 5
Rhagor o
Storïau
Pecyn A

Stori gan
**Roderick Hunt**

Trosiad Cymraeg gan
**Emily Huws**

Lluniau gan
**Alex Brychta**

**Storïau yng Ngham 5:**

**Storïau boncyff**

1 Yr Allwedd Hud
2 Antur gyda'r Môr-ladron
3 Coeden y Ddraig
4 Nain
5 Antur yn y Castell
6 Y Pentref yn yr Eira

**Rhagor o Storïau Pecyn A**

**Y drefn ddarllen a gymeradwyir:**

Y Peth'ma
Antur dan y Ddaear
Eli Diflannu
Dydi o Ddim yn Deg!
Y Ras Fawr
Anghenfil o Jôc

© Argraffiad Saesneg, Oxford University Press 1993
ⓗ Argraffiad Cymraeg, Gwasg Addysgol Drake 1999

ISBN 0-86174-164-1

DRAKE

ISBN 0 86 174164 1

9 780861 741649